# Accredited Training for HCAs (Nursing)
# Administering Immunisations and injections training.

## Qualification overview

### Step 1: Introductory session

The course begins with a 90 minute online introductory session and then access to the e-learning package. You must complete 4 e-learning modules assessed by multiple choice examination (95%pass rate). There are also Workbooks to complete for each module. The module are:

- Role and Responsibilities
- Immunity and Vaccines
- Administration and Technique
- B12 Injections

### Step 2: Building on e-learning knowledge and skills – Workshop day.

In a classroom environment with tutor assessment and practical activity, one day attendance (Numbers are limited to allow for Covid safety measures). When step 2 has been successfully completed training will continue in the workplace.

### Step 3: Continued development of skills and assessment in the workplace

Work based learning will focus on developing the skills for clinical practice under the supervision of a registered nurse. To ensure they have the underpinning knowledge for immunisation and injections, learners must ensure they have completed their online theoretical learning (as a minimum) prior to undertaking their clinical competencies in practice.

*To complete the clinical competencies of the unit each HCA will need to:*

- Perform 10 supervised, documented influenza immunisations on adults demonstrating intramuscular injection techniques, plus: 10 Pneumococcal Pneumonia (PPV) injections in adults
- 10 Herpes Zoster (shingles) injections in eligible adults
- 10 Intranasal Fluenz
- 10 B12 injections.

## What equipment and software are required to complete the course?

Laptop / computer / iPad / android tablet

## Plus access to:

- Internet
- Speaker and microphone
- Active personal email address - if not please set one up before application
- Gmail, Google Drive

## If you are working from home:

Access to Google docs, hangouts, google email & presentation and meetings.

## Next Available Dates (one of the below)

27/01/2021 -10 AM 90 minute online Induction (Group 1)
27/01/2021 – 1 PM 90 minute online Induction (Group 2)

## Drop in tutorial Sessions (To support online module completion):

04/02/2021
12/02/2021
25/02/2021
04/03/2021

The drop in sessions will run over 4 weeks for 45 mins per week for each group.
Times:
Group 1 -3:30 -4:15pm
Group 2 - 4:15 -5:00pm

**Please Note:** Once you successfully complete the theoretical and knowledge modules the college will contact you directly to book you onto one of the practical workshop dates taking place from the week commencing the 22$^{nd}$ of March.

## To book your place please e-mail Grwp Llandrillo Menai directly:

Emily Jakeman: jakema1e@gllm.ac.uk

# Hyfforddiant Achrededig i Gynorthwywyr Gofal Iechyd (Nyrsio)

# Hyfforddiant ar Imiwneiddio a  Rhoi Pigiadau

## Golwg cyffredinol ar y cymhwyster

### Cam 1:  Sesiwn ragarweiniol

Bydd y cwrs yn dechrau gyda sesiwn ragarweiniol ar-lein a fydd yn para 90 munud. Yna, cewch fynediad i'r pecyn e-ddysgu. Rhaid i chi gwblhau 4 modiwl e-ddysgu a asesir drwy gyfrwng arholiad amlddewis (rhaid cael 95% i lwyddo). Yn ogystal, mae Llyfrau Gwaith i'w cwblhau ar gyfer pob modiwl. Dyma'r modiwlau:

- Rôl a Chyfrifoldebau
- Imiwnedd a Brechlynnau
- Rhoi Pigiadau a'r Dechneg o wneud hynny
- Pigiadau B12

### Cam 2: Datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau y gwnaethoch eu meithrin wrth e-ddysgu  – Gweithdy diwrnod

Cynhelir gweithgaredd ymarferol mewn dosbarth gyda thiwtor yn asesu. Bydd y gweithdy'n para diwrnod (cyfyngir ar y niferoedd er mwyn cydymffurfio â rheolau Covid). Ar ôl cwblhau cam 2 yn llwyddiannus, bydd yr hyfforddiant yn parhau yn y gweithle.

### Cam 3: Parhau i ddatblygu sgiliau ac asesu yn y gweithle

Bydd y dysgu yn y gweithle'n canolbwyntio ar feithrin sgiliau ymarfer clinigol o dan oruchwyliaeth nyrs gofrestredig. Er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth sylfaenol am imiwneiddio a rhoi pigiadau, rhaid i'r dysgwyr gwblhau eu gwersi theori ar-lein (o leiaf) cyn ymgymryd â'r ochr ymarferol.

*I ennill y cymhwyster clinigol sy'n rhan o'r uned, bydd gofyn i bob Cynorthwyydd Gofal Iechyd:*

- Rhoi pigiad imiwneiddio rhag ffliw, dan oruchwyliaeth, i ddeg oedolyn, gan ddefnyddio technegau rhoi pigiadau mewngyhyrol, yn ogystal â: Rhoi pigiad PPV i ddeg oedolyn
- Rhoi pigiad Herpes Zoster (rhag yr eryr) i ddeg oedolyn cymwys
- Rhoi deg brechlyn ffliw drwy'r trwyn
- Rhoi deg pigiad B12

## Pa gyfarpar a meddalwedd fydd arnoch eu hangen i ddilyn y cwrs?

Gliniadur / cyfrifiadur / iPad / tabled android

## Ynghyd â mynediad i'r:

- Rhyngrwyd
- Seinydd a microffon
- Cyfeiriad e-bost personol – os nad oes gennych un, trefnwch un cyn gwneud cais
- Gmail, Google Drive

## Os ydych yn gweithio o adref:

Mynediad i Google docs, hangout, rhaglenni e-bost, cyflwyniadau a chyfarfodydd Google.

## Dyddiadau'r hyfforddiant nesaf (un o'r isod)

27/01/2021 – 10am Rhagarweiniad 90 munud ar-lein (Grŵp 1)
27/01/2021 – 1pm Rhagarweiniad 90 munud ar-lein (Grŵp 2)

## Sesiynau tiwtora galw heibio (i'ch cynorthwyo i gwblhau'r modiwl ar-lein):

04/02/2021
12/02/2021
25/02/2021
04/03/2021

Cynhelir y sesiynau galw heibio 45 munud yr wythnos, am 4 wythnos, i bob grŵp.
Amseroedd:
Grŵp 1 – 3:30 – 4:15pm
Grŵp 2 – 4:15 – 5:00pm

**Noder:** Wedi i chi gwblhau'r modiwlau theori a gwybodaeth yn llwyddiannus, bydd y coleg yn cysylltu â chi'n uniongyrchol i'ch cofrestru ar un o'r gweithdai ymarferol a gynhelir yn ystod yr wythnos a fydd yn dechrau 22 Mawrth.

## I archebu'ch lle, anfonwch neges e-bost uniongyrchol at Emily Jakeman yng Ngrŵp Llandrillo Menai:

jakema1e@gllm.ac.uk